



Ysgol Gymraeg Trefynwy
Pennaeth / Headteacher: Mrs K Matthews
Rockfield Road, Monmouth NP25 5BA 01600
738103



ysgolgymraegtrefynwy@monmouthshireschools.wales

Trosolwg o flaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol 2026-27

Annwyl deuluoedd,

Fel ysgol, rydym wedi cynllunio'n strategol i ddatblygu ein hysgol dros y tair blynedd nesaf, gan osod blaenoriaethau manwl ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rydym yn awyddus i ddatblygu ethos cynhwysol, ac rydym yn teimlo'n gryf fod cynnwys teuluoedd ym mhob agwedd ar dwf ein hysgol ac addysg eich plentyn yn bwysig wrth ddatblygu a rhannu ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau. Gweler isod grynodeb o flaenoriaethau Cynllun Datblygu'r Ysgol ar gyfer eleni.

Blaenoriaethau Datblygu'r Ysgol 2026-27: Crynodeb i Rieni

Wrth i'n hysgol barhau i dyfu, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu'r profiadau dysgu a'r gefnogaeth orau bosibl i bob plentyn. Eleni, mae gennym dair prif flaenoriaeth:

Blaenoriaeth 1: Helpu Plant i Ddod yn Ddysgwyr Annibynnol

Rydym am i bob plentyn ddatblygu hyder, chwilfrydedd a chariad at ddysgu.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- Parhau i wella ein hamgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored fel eu bod yn diwallu anghenion a diddordebau pob plentyn.
- Datblygu cyfleoedd dysgu sy'n seiliedig ar chwarae ac ymholi, sy'n annog plant i archwilio, ymchwilio a meddwl yn annibynnol.
- Gwrando'n ofalus ar lais y disgyblion a defnyddio arsylwadau i gynllunio profiadau dysgu sy'n cyd-fynd ag anghenion a diddordebau plant.
- Cryfhau prosesau asesu a chynllunio fel bod staff yn gallu adnabod a chefnogi cynnydd pob plentyn yn glir.
- Datblygu ymhellach brofiadau dysgu cyffrous ym maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg sy'n annog chwilfrydedd, datrys problemau ac archwilio.

Ein nod: Bydd plant yn dod yn ddysgwyr mwy annibynnol, creadigol a brwdfrydig sy'n chwarae rhan weithredol yn eu dysgu.

Blaenoriaeth 2: Gwellu Darllen ac Ysgrifennu i Bob Dysgwr

Rydym am i bob plentyn wneud cynnydd cadarn mewn darllen ac ysgrifennu, gan sicrhau ar yr un pryd fod y rhai sydd angen cymorth ychwanegol yn ei dderbyn yn gyflym ac yn effeithiol.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- Defnyddio dulliau cyson o addysgu sgiliau darllen cynnar ledled yr ysgol, gan gynnwys sesiynau Tric a Chlic dyddiol a gweithgareddau darllen.

- Datblygu arbenigedd staff fel bod darllen yn cael ei addysgu'n gyson ac yn effeithiol ym mhob dosbarth.
- Creu cynllun dilyniant ysgrifennu ysgol gyfan sy'n dangos yn glir sut mae sgiliau ysgrifennu yn datblygu o flwyddyn i flwyddyn.
- Monitro cynnydd plant yn rheolaidd a defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu.
- Darparu cymorth a rhaglenni ymyrraeth wedi'u targedu ar gyfer plant a allai fod dan anfantais neu'n agored i niwed, gan helpu i gau bylchau mewn dysgu a meithrin hyder.

Ein nod: Bydd plant yn datblygu sylfeini cadarn mewn darllen ac ysgrifennu ac yn gwneud y cynnydd gorau posibl o'u mannau cychwyn.

Blaenoriaeth 3: Adeiladu Cymuned Ysgol Gryf

Rydym am i'n hysgol barhau i ddatblygu diwylliant cadarnhaol a chynhwysol lle mae pawb yn cydweithio i gefnogi llesiant a llwyddiant plant.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- Cryfhau rôl y llywodraethwyr wrth gefnogi a herio taith wella'r ysgol.
- Gweithio'n agos gydag ysgolion a llywodraethwyr eraill i rannu arfer dda.
- Parhau i ddatblygu gwaith tîm, cyfathrebu a chydweithio ymhlith staff.
- Sefydlu a hyrwyddo gwerthoedd ysgol cyffredin sy'n adlewyrchu ein gweledigaeth a'n dyheadau ar gyfer pob dysgwr.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth helpu'r ysgol i symud ymlaen.

Ein nod: Creu cymuned ysgol gref a chefnogol lle mae staff, llywodraethwyr a theuluoedd yn cydweithio i helpu pob plentyn i ffynnu.

Gobeithiwn y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi ac yn rhoi trosolwg clir o'r hyn sy'n bwysig i ni eleni.

Cofion cynnes,
Mrs Matthews